

Vaughan Gething AC/AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Julie Morgan AC/AM  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

6 Ebrill 2020

Annwyl gyfeillion,

Mae degau ar filoedd o bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn arwyr nad ydynt yn cael y clod y maen nhw'n ei haeddu. Yn rhy aml o lawer, nid yw'r cyhoedd yn sylwi ar y gwaith yr ydych chi'n ei wneud, ond hebdo, ni fyddai Cymru'n dal i fynd. Chi yw'r strwythur anweledig sy'n dal teuluoedd unigol, gwasanaethau, gan gynnwys ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), a'r gymdeithas at ei gilydd.

I gydnabod eich ymroddiad a'ch gwaith caled chi y daeth pobl Cymru ynghyd am 8pm ddydd lau diwethaf, ac eto'r wythnos hon, i anfon neges bwerus drwy glapio i bawb sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid oes angen inni ddweud wrthy'ch chi pa mor werthfawr yw'r gwaith yr ydych chi'n ei wneud. Ond rwy'n ysgrifennu atoch heddiw i roi gwybod ichi ein bod yn cydnabod y gofal hollbwysig yr ydych chi'n ei ddarparu a'r cysylltiadau yr ydych yn eu creu gyda'r bobl yr ydych yn eu helpu. Mae'r rhain yn gwella eu bywydau.

Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydych yn ei wneud. Rydych yn gofalu am bobl o bob oedran ym mhob rhan o Gymru ac mae eich ymdrechion cadarn yn hanfodol i fywydau'r unigolion sydd angen cymorth.

Mae hwn yn gyfnod anodd i bawb. Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd sy'n wynebu'r wlad ar hyn o bryd yn ogystal â'r pwysau mawr sydd wedi dod yn sgil yr her hon. Bydd llawer ohonoch yn pryderu am eich teuluoedd eich hunain. Bydd llawer ohonoch yn gorfod ymdopi ag ymrwymadau teuluol a threfniadau gofal plant wrth ichi hefyd wneud eich gwaith a bydd llawer ohonoch yn gweithio mewn ffordd wahanol.

Rydym yn gweithio'n galed i'ch cefnogi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod yn cael yr un flaenoriaeth mewn archfarchnadoedd â staff y GIG – ewch â'ch bathodyn gwaith gyda chi i osgoi unrhyw ddrwsch.

Rydym yn gwybod bod llawer o bobl yn pryderu am eu diogelwch ac yn poeni ynghylch cael y cyfarpar diogelu personol cywir. Mae'r canllawiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau yr wythnos ddiwethaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau bod rhagor o gyfarpar diogelu personol yn cyrraedd yr holl staff gofal cymdeithasol ar y rheng flaen. Rydym wedi dosbarthu dros 5 miliwn o eitemau diogelu personol ychwanegol o'n cyflenwadau

pandemig. Mae hynny ar ben y cyflenwadau arferol sydd ar gael. Mae cyflenwadau ychwanegol wedi cael eu cludo i bwyntiau dosbarthu yn yr awdurdodau lleol, yn barod i'w dosbarthu i bob safle gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau cyflenwad newydd o gyfarpar diogelu personol. Rydym hefyd yn gweithio gyda busnesau a chwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru i greu ein cyflenwad ein hunain o gyfarpar diogelu personol a wnaed yng Nghymru yn ystod pandemig y coronafeirws.

Mae'r canllawiau newydd ar gyfer defnyddio cyfarpar diogelu personol i'w cael yma: <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/information-for-healthcare-workers-in-wales/>.

Mae'n bwysig dilyn y canllawiau newydd yn briodol a sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio fel y nodir. Am bob darn o gyfarpar diogelu personol sy'n cael ei ddefnyddio'n ddiangen, mae darn yn llai o gyfarpar ar gael i'r staff sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Rydym yn ddiolchgar dros ben ichi am eich gwaith ymroddedig – mae Cymru yn dibynnu arnoch chi.


Roeddech chi'n gwneud hyn ymhell cyn i'r coronafeirws gyrraedd y wlad a byddwch yn parhau i ofalu am yr unigolion fwyaf agored i niwed yng Nghymru ar ôl y pandemig hwn, ond mae'r feirws yn gwneud eich swydd yn fwy heriol byth.

Diolch ichi, ar ran Cymru, am eich ymdrechion ac am yr holl aberthau yr ydych yn eu gwneud.

Yn gywir



**Vaughan Gething AC/AM**  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



**Julie Morgan AC/AM**  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Health and Social  
Services